Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales Fire and Rescue Service

# DIOGELU RHAG TÂN MEWN CARAFANAU

**Pan fyddwch yn aros mewn carafán neu gartref symudol cofiwch ddilyn y camau isod i'ch diogelu rhag tân.**

## AR Y SAFLE

- Gwnewch yn siŵr fod o leiaf chwe metr rhwng pob carafán.
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwybod beth yw'r trefniadau ar gyfer diffodd tanau ar y safle a ble mae'r ffôn agosaf.
- Cadwch dortsh wrth law rhag ofn y bydd argyfwng - peidiwch â defnyddio canhwyllau.

## EICH CARAFÁN

- Gosodwch larwm mwg optegol a larwm carbon monocsid yn eich carafán.
- Byddwch yn ofalus wrth goginio - peidiwch â gadael y stof heb neb i ofalu amdani.
- Cadwch fatshys a leitars allan o afael plant.
- Os ydych yn ysmygu, defnyddiwch flwch llwch addas a diffodd y sigarét yn iawn - peidiwch byth ag ysmygu yn y gwely.
- Peidiwch byth â gadael plant ar eu pen eu hunain mewn carafán.
- Gofalwch fod digon o aer yn dod i mewn i'r garafán a pheidiwch â gorchuddio tyllau aer - gall hynny beryglu bywydau.
- Cadwch ddiffoddydd tân yn y garafán, wrth y drws.

## SILINDRAU NWY WRTH EICH CARAFÁN

- Cadwch silindrau y tu allan i'ch carafán.
- Cyn mynd i'r gwely neu adael y garafán, diffoddwch yr holl gyfarpar.
- Diffoddwch y silindrau oni bai bod gennych gyfarpar (fel oergell) sydd wedi'i gynllunio i fod ymlaen drwy'r amser.
- Peidiwch byth â defnyddio stof na gwresogydd tra bydd y garafán neu'r cartref symudol yn symud.
- Peidiwch â newid poteli nwy nes eu bod yn gwbl wag.
- Gofalwch fod cyfarpar yn cael ei gynnal a'i gadw yn rheolaidd.

## OS YDYCH YN AMAU BOD NWY YN GOLLWNG

- Diffoddwch yr holl gyfarpar a'r brif falf i'r silindr.
- Agorwch bob drws a phob ffenestr.
- Peidiwch ag ysmygu na defnyddio switshys trydan na ffôn symudol.

## OS OES TÂN

**1 EWCH ALLAN**
a gofalwch bod pawb allan o'r garafán a pheidiwch â mynd yn ôl i mewn.

**2 FFONIWCH 999**
am y Gwasanaeth Tân ac Achub gan ddweud ble yn union rydych chi.

**3 RHOWCH GYFEIRNOD MAP**
os yw'n bosibl map i'r Gwasanaeth Tân ac Achub neu fel arall nodwch fan amlwg neu adeilad amlwg fel eglwys neu dafarn i'w helpu i ddod o hyd i chi.

---

**Y FFÔN AGOSAF**
(Y TU ALLAN I'R GARAFÁN) ____________________

**CYF. MAP / MAN AMLWG** ____________________